



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Sylfaenol 4 Hydref 2008
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Adroddiad y Prif Arholwr

Diolch i'r arholwyr am eu sylwadau manwl yn nodi'r llwyddiannau a'r anawsterau a gafodd yr ymgeiswyr. Diolch i staff y swyddfa am eu trefniadaeth effeithiol arferol ac am bob cefnogaeth.

Safon Aelodaeth Sylfaenol

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Nifer yr ymgeiswyr: 27

Llwyddo: 10

Methu: 17

Gosodwyd dau ddarn o ryw 250 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Disgrifiai'r naill ddarn ymweliad â safle o bwys hanesyddol yng Ngwynedd; roedd y llall yn ymwneud â'r rhwystredigaeth a gyfyd wrth geisio trafod diffygion rhai gwasanaethau sylfaenol a gynigir gan y sector cyhoeddus a chan y sector breifat.

Cafwyd nifer o ymgeiswyr addawol iawn a gresyn nad oes modd sicrhau y byddant, ar gychwyn eu gyrfa yn y proffesiwn, yn cael eu goruchwyllo'n ofalus a'u cynorthwyo i feithrin arferion da. Yn achos nifer o'r ymgeiswyr a oedd o fewn trwch blewyn i lwyddo, mae'r nod o fewn cyrraedd iddynt.

Heb lwyddo i gyfleu grym y testun gwreiddiol ac ymadroddi cloff

Cafodd sawl ymgeisydd anhawster i gyfleu grym a chyd-destun yr ymadrodd enwol: *the hills which English tourists have always called The Rivals*. Dyma ddwy enghraifft o gyfieithu aflwyddiannus: 'y bryniau y mae'r Saeson yn galw'r Ymrysonwyr'; 'y bryniau mae twristiaid Seisnig wedi galw'n 'Y Gelynyon' erioed'. Syndod oedd gweld cynifer yn dewis mynd ati i gyfieithu 'The Rivals' i'r Gymraeg, gan fod gwneud hynny'n difetha holl synnwyr y frawddeg.

Roedd priod-ddulliau ac ymadroddi'r gwreiddiol yn lliwio gwaith ambell ymgeisydd yn ormodol:

'... cwrdd/cyfarfod â maen safadwy/carreg sefyll' am ...*although I am no expert on antiquities, I am always pleased to meet a standing stone.*

Cafodd llawer drafferth i gyfleu grym pwysleisiol y frawddeg hon: *It was the antiquarian, Thomas Pennant, who first put this hill fort on the map by declaring it "the most perfect British post I ever beheld"*. Er bod ambell ymgeisydd wedi llwyddo: ‘...drwy ddatgan mai dyma’r “safle Prydeinig mwyaf perffaith a welais erioed”’, ceisio osgoi’r gystrawen yn llwyr a wnaeth llawer o ymgeiswyr.

Roedd tuedd gyffredinol i beidio â darllen y gwaith yn ddigon gofalus cyn ei gyflwyno, ac o ganlyniad, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu’n rhy fras, o anwybyddu cytundeb rhif a chenedl, o golli treigladau, o newid ystyr y gwreiddiol. Collwyd cydymdeimlad yr arholwyr yn ddiangen wrth hepgor geiriau ac ymadroddion. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen y gwaith sawl tro cyn ei gyflwyno, nid ochr yn ochr â’r Saesneg yn unig, ond dylid hefyd ystyried y darn a gyflwynir i’w arholi yn ddarn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol.

Yr oedd elfennau digon canmoladwy yng ngwaith llawer o’r ymgeiswyr: ‘Mae hi’n werth straffaglu i ddringo...’ am *It is well worth the clamber...* ‘llethrau... yn frith o anheddau hynafol’ am *slopes littered with ancient settlements*.

Ar lawer ystyr, roedd yr ail ddarn yn fwy nodweddiadol o waith pob dydd y cyfieithydd, a llwyddodd sawl ymgeisydd i gyflwyno gwaith digon cymeradwy. Un o’r prif anawsterau, sut bynnag, oedd anallu i gyfleu’r cywair priodol. O ganlyniad roedd gwaith rhai ymgeiswyr heb gyfleu naws ac arddull newyddiadurol y gwreiddiol.

Ni lwyddodd aml i ymgeisydd i gyfleu grym pwysleisiol rhai o frawddegau’r gwreiddiol.

Geirfa

Roedd *antiquities, antiquarian, ancient man, standing stone, savings account* wedi achosi anhawster i amryw.

Penderfynwyd cael barn Canolwr ar waith tri ymgeisydd. Barn y Canolwr oedd bod gwaith y tri ymgeisydd yn dangos addewid a ‘gallu da’.

Prif Arholwr (o’r Saesneg i’r Gymraeg) Tachwedd 2008